

CABINET - DYDD MAWRTH, 23 MEDI 2025

COFNODION CYFARFOD y Cabinet A GYNHALIWYD ar ffurf hybrid yn Siambr y Cyngor – Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB / o bell ar Microsoft Teams ddydd Mawrth, 23 Medi 2025 AM 14:30

Yn Bresennol

Y Cyngorydd – Cadeirydd

N Farr
P Davies

J Gebbie
M Jones

H M Williams

E L P Caparros

Swyddogion:

Jake Morgan
Nimi Chandrasena
Carys Lord
Claire Marchant
Janine Nightingale
Kelly Watson
Lindsay Harvey
Michael Pitman
Jonathan Parsons
Adam Provoost

Prif Weithredwr
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Technegol
Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau
Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc
Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd
Datblygu Rheolwyr Grŵp
Uwch Swyddog Cynllunio Datblygu

517. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Penderfyniad a Wnaed	Y Cyngorydd Melanie Evans
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Medi 2025

518. Datganiadau o Fuddiant

Y Penderfyniad a Wnaed	Dim
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Medi 2025

519. Cymeradwyo Cofnodion

Y Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD</u> : Cymeradwyo cofnodion 22/07/2025 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Medi 2025

520. Mynediad i Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau adroddiad a roddodd ddiweddariad i'r Cabinet ar brosiect Mynediad i Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr a cheisiodd gymeradwyaeth i gyflwyno Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Arbrofol (ETRO) 18 mis yn cynnwys mesurau fel y nodir yn adran 1.1 yr adroddiad. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol gan Aelodau'r Cabinet: • Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur? • Beth fyddai'n achosi i'r ETRO gael ei ddirymu neu ei addasu? • Os bydd cynnydd yn nifer y rhyngweithio gan feicwyr/cerddwyr, a fyddai beiciau'n cael eu gwahardd? • Pam cafodd canol y dref ei gwneud yn lle i gerddwyr yn 2004? • Beth fyddai swyddogion yn chwilio amdano mewn asesiadau risg diogelwch ar gyfer beicio mewn
------------------------	--

	ardaloedd i gerddwyr? • A fydd y treial yn rhwystro mynediad i gerbydau brys neu'n effeithio ar ddigwyddiadau arbennig? Atebwyd pob cwestiwn gan Swyddogion. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau y byddai unrhyw newidiadau i'r ETRO yn cael eu gwneud ar ôl ymgynghori â'r Aelod Cabinet perthnasol. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet: 1. Yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau i:- (i) mynd ar drywydd ETRO 18 mis ar gyfer ymestyn oriau llwytho a dadlwytho i 11:00 a'i aildddechrau ar ôl 16:00, gyda hyblygrwydd ychwanegol yn cael ei ganiatáu ar gyfer sefyllfaoedd a digwyddiadau brys; (ii) mynd ar drywydd ETRO 18 mis i ganiatáu beicio o fewn yr ardal i gerddwyr, yn amodol ar gwblhau'r asesiadau risg diogelwch yn foddhaol; (iii) mynd ar drywydd ETRO 18 mis ar gyfer trosi baeau tacsï sydd heb eu defnyddio'n ddigonol ar Heol y Dderwen yn faeau parcio Bathodyn Glas. 2. Yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau i sefydlu trefniadau monitro a gwerthuso ar gyfer y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Arbrofol (ETRO) ac i addasu, atal neu ddirymu'r Gorchymyn os oes angen, yn ystod y cyfnod arbrofol. Gyda'r gwelliant i ychwanegu "mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet priodol." 3. Yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid a'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD ac Etholiadau, i gyflwyno a derbyn cyllid allanol, ac i ddyfarnu a llunio contractau, cytundebau a dogfennau cyfreithiol eraill ar ran y Cyngor sy'n angenrheidiol i gyflawni'r mesurau. 4. Yn nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn cynnig sefyllfa barhaol mewn perthynas â'r Gorchymynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol (ETRO); 5. Yn nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar brosiectau Cynllun Meistr Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Medi 2025

--	--

521. Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar gyfer Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gyflwyno'r Canllawiau Cynllunio Atodol terfynol i'r Cyngor i'w mabwysiadu. Amlinellodd y newidiadau allweddol a wnaed i'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos fel y nodir yn adran 3 yr adroddiad. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol gan Aelodau'r Cabinet: • Sut fydd ansawdd y cyfleusterau a'r offer yn cael ei sicrhau? • Y dyraniad isel ar gyfer rhandiroedd (4.6m² y tŷ) a'i effaith ar gynaliadwyedd bwyd a chenedlaethau'r dyfodol. • A yw'r canllawiau'n rhoi pwerau i'r cyngor orfodi datblygwyr i drosglwyddo mannau chwarae i'r awdurdod i'w mabwysiadu? Mynegodd yr Arweinydd ei anghytundeb â chwmnïau rheoli preifat yn cynnal mannau agored ar ystadau, gan ei fod yn ychwanegu cost ychwanegol i drigolion sydd eisoes yn talu treth y cyngor. Fodd bynnag, cydnabu fod y Cyngor wedi'i gyfyngu'n gyfreithiol o ran yr hyn y gallai ei wneud. Tynnodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid sylw at wall yn Nhabl 2 yr adroddiad ac awgrymodd welliant a oedd yn nodi 'cyfraniadau cychwynnol ar gyfer rhandiroedd ac ardaloedd chwarae lleol (LAP) ar gyfer datblygiadau o 11 i 50 o anheddau.' Roedd pob Aelod o'r Cabinet yn cytuno â'r gwelliant hwn. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet: 1. Yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn a'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft ar Gyfleusterau Hamdden Awyr Agored, ynghyd â'r gwelliannau canlyniadol sydd ynghlwm fel Atodiad 2.
------------------------	---

	2. Yn cymeradwyo'r cyflwyniad o'r Canllawiau Cynllunio Atodol terfynol ar gyfer Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored (Atodiad 1) i'r Cyngor i geisio eu mabwysiadu. 3. Yn diwygio Tabl 2 yr adroddiad, i ddechrau cyfraniadau ar gyfer rhandiroedd a mannau chwarae lleol (LAP) ar gyfer datblygiadau o 11 i 50 o anheddau.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Medi 2025

522. Canllawiau Cynllunio Atodol drafft ar gyfer 'Tai Amlfeddiannaeth'

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori'n gyhoeddus ar y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft ar gyfer 'Tai Amlfeddiannaeth' (Atodiad 1). Tynnodd sylw at yr arweiniad a roddir gan y Canllawiau Cynllunio Atodol ac a nodir yn adran 3.2 yr adroddiad. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol gan Aelodau'r Cabinet: • A yw'r awdurdod yn cynnig cefnogaeth i drigolion sy'n cwyno am ymddygiad gwrthgymdeithasol o dai amlfeddiannaeth, neu a ddylai hyn fynd at yr heddlu? • Sut mae tai amlfeddiannaeth yn cael eu plismona ar ôl caniatâd cynllunio, yn enwedig o ran newidiadau i strwythur mewnol? Hefyd, gofynnwyd pam fod cartrefi gofal preswyl yn cael eu crybwyll o dan 'dai amlfeddiannaeth'. • A fydd yr ymgynghoriad yn mynd i'r afael â'r diffyg rheoleiddio ar dai amlfeddiannaeth llai (3–5 o bobl) ynghylch drysau tân, chwistrellwyr dŵr, ac ati? A yw'r rheolau hyn yn ôl-weithredol? Beth yw'r rhesymeg dros y rheol 50 metr? Atebwyd y cwestiynau gan Swyddogion.
------------------------	--

	<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet: 1. Yn cymeradwyo'r Canllawiau Cynllunio Atodol drafft ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth (Atodiad 1) fel sail ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus o 6 wythnos; 2. Yn awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau a Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i wneud mân newidiadau cyflwyniadol, cywiriadau teipograffig neu ffeithiol yn ôl yr angen cyn ymgynghoriad cyhoeddus; ac 3. Yn awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau a Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i gynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o 6 wythnos ac i adrodd canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus yn ôl i'r Cabinet i'w cymeradwyo ac yna anfon yr adroddiad at y Cyngor a cheisio mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol terfynol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Medi 2025

523. Adroddiad Rheoli'r Trysorlys Chwarter 1 2025–26

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad a ddiweddarodd y Cabinet am weithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2025. Crynhodd y gweithgareddau rheoli trysorlys a ddangosir yn adroddiad Chwarterol Rheoli'r Trysorlys hyd at 30 Mehefin 2025 yn Atodiad A, a chynghorodd nad oedd unrhyw fenthyciadau tymor hir wedi'u cymryd yn ystod chwarter cyntaf 2025–26. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol gan Aelodau'r Cabinet: • Sut fydd chwyddiant cynyddol (uwchlaw'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, ar gyfer awdurdodau lleol) yn effeithio ar sefyllfa ariannol y cyngor yn y dyfodol? • Sut fydd chwyddiant cynyddol (uwchlaw'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, ar gyfer awdurdodau lleol) yn effeithio ar sefyllfa ariannol y cyngor yn y dyfodol?
------------------------	---

	• Sut mae benthyca tymor hir yn cael ei effeithio gan y canllaw meincnodi rhwymedigaethau? • Sut mae dyled y cyngor yn cymharu ag awdurdodau eraill Cymru? • Pam nad yw buddsoddi moesegol yn cael ei grybwyll yn benodol yn strategaeth rheoli'r trysorlys? Atebwyd pob cwestiwn gan y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet: 1. Yn nodi'r gweithgareddau rheoli trysorlys ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2025. 2. Yn nodi'r Dangosyddion ar gyfer Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 1 Mawrth 2025 yn erbyn y rhai a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025–26.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Medi 2025

524. Polisi Gwrth-Wyngalchu Arian

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad ar y Polisi Gwrth-Wyngalchu Arian (Atodiad A) i'r Cabinet i'w gymeradwyo. Cynghorodd fod yr adolygiad presennol yn gwneud llawer o welliannau a diweddariadau bach ar gyfer ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, i fynnu gwell diwydrwydd dyladwy ar gyfer sefydliadau y tu allan i'r DU. Cymeradwywyd yr adroddiad hefyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 19 Mehefin 2025 heb unrhyw welliannau. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol gan Aelodau'r Cabinet: • Gofynnwyd am gadarnhad bod yr adolygiad polisi yn unol â rheoliadau ariannol ac effaith Brexit. • Faint o atgyfeiriadau gwyngalchu arian sydd wedi'u gwneud dros y blynyddoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr?
------------------------	---

	Atebwyd pob cwestiwn gan y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Gwrth-Wyngalchu Arian diweddaedig yn Atodiad A.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Medi 2025

525. Adroddiad Blynyddol Cynrychioliadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol 2024/25

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2024/25 ar Gynrychioliadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol. Rhoddodd drosolwg o'r ffigurau fel y'u nodir yn y tabl yn adran 3.2 yr adroddiad a nododd ostyngiad yn nifer cyffredinol y cwynion a dderbyniwyd y llynedd. Rhoddodd ddadansoddiad ymhellach o'r mathau o gwynion a sut y'u datryswyd. Gofynnwyd y cwestiwn canlynol gan Aelod o'r Cabinet: • Beth oedd y mecanweithiau cymorth ar gyfer pobl agored i niwed? Atebwyd y cwestiwn gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Gynrychioliadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024/25.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Medi 2025

526. Polisi Awdurdod Dirprwyedig

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Polisi Awdurdod Dirprwyedig arfaethedig y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Esboniodd fod y polisi arfaethedig yn Atodiad 1 yn disodli pob fersiwn flaenorol o bolisi Awdurdod Dirprwyedig a ddefnyddiwyd cynt gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd y polisi'n nodi'r meysydd lle gall Awdurdod Dirprwyedig fod yn berthnasol i blant a phobl ifanc, a'r gwahanol lefelau a'r rhesymau dros y rheini. Gofynnwyd y cwestiwn canlynol gan Aelod o'r Cabinet: • A yw'r Polisi Awdurdod Dirprwyedig hwn hefyd yn berthnasol i ddarparwyr gofal maeth preifat ac a allai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ei orfodi? Rhoddwyd ateb gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn cymeradwyo rhoi'r polisi Awdurdod Dirprwyedig ar waith i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Atodiad 1).
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Medi 2025

527. Canlyniadau Arolygiadau Estyn o Ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ystod Tymor y Gwanwyn 2025

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc adroddiad a oedd yn hysbysu'r Cabinet o ganlyniadau ymweliadau arolygu craidd ESTYN yn ystod tymor y gwanwyn 2025 i'r ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion (UCD) ganlynol. Dywedodd fod ESTYN, yn ystod tymor y gwanwyn 2025, wedi ymweld â thair ysgol gynradd, dwy ysgol uwchradd, ac un Uned Cyfeirio Disgyblion ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a gafodd arolygiad craidd gan
------------------------	--

	ddefnyddio'r dull newydd. Mae testun llawn yr adroddiadau hyn ar gael ar wefan ESTYN. Gofynnwyd cwestiynau am y materion canlynol gan Aelodau'r Cabinet: • amllder arolygiadau ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr o'i gymharu â gweddill Cymru a'r cylch chwe blynedd a nodwyd. • dulliau cyfathrebu â rhieni ynghylch adroddiadau arolygu cadarnhaol a negyddol. • cefnogaeth sydd ar gael i staff a llywodraethwyr yn ystod y broses arolygu sy'n llawn straen. Atebwyd yr holl gwestiynau gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Medi 2025

528. Blaenraglenni Gwaith y Cabinet, y Cyngor a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gynnwys eitemau ar Flaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod 1 Medi 2025 i 28 Chwefror 2026 ac i'r Cabinet nodi Blaenraglenni Gwaith y Cyngor a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar gyfer yr un cyfnod. Codwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau'r Cabinet: • Asesiad gan gymheiriaid diweddar a ddangosodd fod angen gwneud gwelliannau i'r amserlen i gwmpasu gwahanol feysydd gofynnol. • Y ffaith bod "Cynllun Meistr Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr" wedi'i ohirio a'i fod yn cael ei gyflwyno yn ddiweddarach yn y flwyddyn, gan olygu bod angen addasiadau i'r rhaglen.
------------------------	--

CABINET - DYDD MAWRTH, 23 MEDI 2025

	Oherwydd y pwyntiau a godwyd, cynigiwyd diwygio'r argymhellion o 'Gymeradwyaeth' i 'Nodi', er mwyn caniatáu newidiadau pellach wrth iddynt godi. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn diwygio'r argymhelliad o 'Gymeradwyaeth' i 'Nodi', ac felly: 1. Nododd Flaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod 1 Medi 2025 i 28 Chwefror 2026 yn Atodiad 1; 2. Nododd Flaenraglenni Gwaith y Cyngor a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar gyfer yr un cyfnod, fel y dangosir yn Atodiad 2 ac Atodiad 3 i'r adroddiad, yn y drefn honno.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Medi 2025

529. Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol adroddiad a oedd yn cynghori'r Cabinet ar adroddiadau a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Cabinet. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn cydnabod cyhoeddi'r adroddiad y cyfeirir ato yn adran 3.1 yr adroddiad.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Medi 2025

530. Eitemau Brys

Y Penderfyniad a Wnaed	Dim
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Medi 2025

531. Gwahardd y Cyhoedd

Y Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Na ddylid cyhoeddi'r eitemau canlynol gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 o Ran 21 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007. Yn dilyn cymhwyso'r prawf budd cyhoeddus, penderfynodd y pwyllgor, yn unol â'r Ddeddf, ystyried yr eitemau hyn yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Medi 2025

532. Cymeradwyo Cofnodion Eithriedig

Y Penderfyniad a Wnaed	Roedd yr eitem hon wedi'i heithrio
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	23 Medi 2025

I arsylwi'r ddadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 4:55pm